



# Canllaw i Ymgeiswyr

## Gofalu am y Planed!

Mae popeth rydym yn ei wneud fel bodau dynol yn cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol i ryw raddau ar yr amgylchedd lleol, rhanbarthol a byd-eang. Rydym ni, Pen y Cymoedd, yn ymroddedig i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd mor bell ag sy'n bosib, ac yn gofyn i'n hymgeiswyr wneud yr un peth. Wrth asesu cynigion, rydym yn gwirio bod:

- Gan eich grŵp arferion amgylcheddol da a gefnogir gan weithdrefnau a pholisïau
- Eich cais am brosiect wedi cymryd blaenoriaethau 'Yr Amgylchedd' ym Mhrosbectws y Gronfa Gymunedol i ystyriaeth

### Polisïau'r Amgylchedd

Dylai eich polisi fod yn hawdd ei ddarllen a disgrifio'n glir yr hyn rydych yn bwriadu ei wneud. Nid oes angen iddo fod yn hwy na chwpl o ochrau o A4, ond mae angen iddo nodi amserlen o dargedau a chamau i sicrhau bod dyheadau'n cael eu trawsnewid i gamau gweithredu a newid cadarnhaol. Mae gweithio ar y cyd i ddatblygu polisi'r amgylchedd yn gyfle gwych i adolygu eich gweithgareddau bob dydd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfrifol o safbwynt yr amgylchedd ac yn bodloni gofynion cyfreithiol. Mae'n helpu cynyddu ymwybyddiaeth cyflogaion a gwirfoddolwyr o'u rolau a chyfrifoldebau o ran yr amgylchedd hefyd. Mae'n bosib hyd yn oed y byddwch yn gallu gwneud arbedion o ganlyniad i ostwng defnydd a gwastraff. O ran busnesau, mae cael credadwyedd gwyrdd cryf yn bwynt gwerthu mawr.

Gallai penawdau adrannau mewn Polisi'r Amgylchedd gynnwys y canlynol:

- Gostwng Gwastraff** – e.e. ymrwymiad i osgoi plastigau defnydd sengl, aildefnyddio ac ailgylchu pryd bynnag y bo'n bosib, gan fanteisio at lestri, cwpanau a chynwysyddion all gael eu haildefnyddio pryd bynnag y bo'n bosib.
- Dewisiadau Teithio** – e.e. meddwl yn ofalus p'un a oes angen teithio pellterau byrion ai beidio, ac ystyried dulliau eraill o gael cyfarfodydd, hybu rhannu ceir, defnyddio cludiant cyhoeddus, cerdded a beicio.
- Prynu Nwyddau a Gwasanaethau** – e.e. prynu gan fusnesau lleol pryd bynnag y bo'n bosib, meddwl am fasnachu moesegol a chwilio am opsiynau Masnach Deg - prynu nwyddau a gwasanaethau sydd ag effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol isel (gan gynnwys prynu deunyddiau glanhau sy'n llesol i'r amgylchedd).
- Defnyddio Ynni** – e.e. gan gynnwys mesurau effeithlonrwydd ynni a nodweddion eraill sy'n llesol i'r amgylchedd, gan gymhwyso safonau BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) pryd bynnag y bo'n bosib; gostwng treuliant dŵr.
- Bioamrywiaeth a Bywyd Gwylt** – e.e. achub ar gyfleoedd i greu mannau gwyrdd newydd, ni waeth pa mor fach, sy'n denu bywyd gwylt - bydd blodau ar gyfer gwenyn mewn basgedi crog yn gwneud gwahaniaeth; gosod blychau ystlumod ac adar
- Iechyd a Llesiant** – e.e. annog gwirfoddolwyr a staff i gael seibiau rheolaidd i gerdded a gwneud ymarfer corff yn ystod y diwrnod gwaith (mae cyfarfodydd cerdded yn boblogaidd ar hyn o bryd) gan gefnogi gweithlu iachach a Chymru iachach; isafu aflonyddwch sŵn i gymdogion.
- Hyfforddiant a Chynyddu Ymwybyddiaeth** – sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn deall y rhesymau dros y polisi a'u rôl bwysig wrth gyflwyno camau allweddol.

### Gweithredu!

Ni fydd cael bwriadau da'n ddigon ar ei ben ei hun! Bydd angen i chi bennu targedau a monitro'ch cynnydd, gan adolygu'r polisi a gosod targedau newydd fel y bo angen, gan anelu'n barhaus at wella'ch perfformiad.

**DS: ni fydd cydymffurfio â'r canllaw hwn yn gwarantu y bydd cais yn llwyddiannus - nid yw ond yn rhoi arwydd o'n proses asesu a'n meini prawf.**

#### Mwy o Wybodaeth:

- Arweiniad WCVA – [Polisïau Amgylcheddol](#)
- Cynnal Cymru – [Gwyrddio'ch mudiad](#)
- [Buddsoddi yn Natur](#) - Rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi grwpiau cymunedol a sefydliadau trydydd sector sydd am ddechrau neu ddatblygu prosiect amgylcheddol.
- [Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd](#) - a ddyfernir i sefydliadau sy'n cymryd camau i ddeall, monitro a rheoli eu heffeithiau ar yr amgylchedd.